SEMESTER UN 2025-2026

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

YR ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

GW2.39920: CENEDLAETHOLDEB MEWN THEORI AC YMARFER

Amser a ganiateir: **2 AWR**

Atebwch **2** gwestiwn: **UN** cwestiwn o Adran A ac **UN** cwestiwn o Adran B.

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG.

Ar ôl eistedd, caiff myfyrwyr lewni blaenddalen y llyfryn ateb a'r daflen

PEIDIWCH A THROI'R PAPUR CWESTIYNAU ARHOLIAD DROSODD

TAN EICH BOD WEDI CAEL CYFARWYDDYD I WNEUD HYNNY

ADRAN A

1. ‘Nationalism demands the nation-state; the creation of the nation-state strengthens nationalism. Here, as elsewhere in history, we find a continuous interdependence and interaction.’ (Kohn, 1994 in Hutchinson & Smith, 1994: 24). Dadansoddwch yn feirniadol.

2. Ym 1992, dadleuodd Hobsbawm fod cenedlaetholdeb ‘wedi cyrraedd ei anterth’: ‘The owl of Minerva which brings wisdom, said Hegel, flies out at dusk. It is a good sign that it is now circling round nations and nationalism.’ A ydych yn cytuno?

3. A yw’n bosibl damcaniaethu cenhedloedd a chenedlaetholdeb?

4. ‘Daily, the nation is indicated, or “flagged”, in the lives of its citizenry. Nationalism, far from being an intermittent mood in established nations, is the endemic condition.’ (Billig, 1995: 6). Trafodwch yn feirniadol.

5. Gwerthuswch yn feirniadol gryfderau a gwendidau esboniad ‘parhaol’ (*perennialist*) Adrian Hastings o’r genedl.

6. Gwerthuswch yn feirniadol gryfderau a gwendidau’r ymagwedd fodernaidd at genhedloedd a chenedlaetholdeb.

7. A yw cenhedloedd yn ffenomen naturiol a chyffredinol, ac yn estyniad o berthnasau teuluol a charennydd? Trafodwch yn feirniadol.

8. Gwerthuswch yn feirniadol ddefnyddioldeb y gwahaniaeth rhwng dealltwriaethau dinesig ac ethnig o genedligrwydd a ffurfiau o genedlaetholdeb gan gyfeirio at **o leiaf un** astudiaeth achos.

ADRAN B

1. Beth yw goblygiadau cynnydd pleidiau poblyddol ar gyfer gwleidyddiaeth gyfoes? Trafodwch mewn perthynas ag **o leiaf un** astudiaeth achos.

2. A yw cenedlaetholdeb Hindŵaidd yn herio'r syniad o 'Undod mewn Amrywiaeth' a chenedlaetholdeb seciwlar yn India? Os felly, sut?

3. A yw mudiadau poblyddol cyfoes ledled Ewrop a'r Gorllewin yn gymharol? Trafodwch mewn perthynas ag **o leiaf ddwy** astudiaeth achos.

4. 'Nationalism has been defined as a patriarchal project that opposes the needs of the women and the goals of gender equality.' (Chrisman, 2004: 188). A ydych yn cytuno gyda'r diffiniad hwn?

5. 'A variety of cultural, legal and political discourses are used in constructing boundaries of nations […] As the biological "producers" of children/people, women are also, therefore, "bearers of the collective" within these boundaries' (Yuval-Davis, 1997: 26). Trafodwch yn feirniadol.

6. 'As the case of Hindutva in India illustrates, violence against minorities is normalized in the name of personal, communal, national and even international security.' (Anand, 2005: 212) Trafodwch yn feirniadol.

7. Sut cyfrannodd cenedlaetholdeb at chwalu Iwgoslafia?

8. 'Beyond the fact that these parties emerged in response to centre-periphery tensions, it is impossible to talk of stateless nationalist parties as constituting one, homogenous party family'. Trafodwch yn feirniadol gan gyfeirio at **o leiaf ddwy** blaid genedlaetholgar ddi-wladwriaeth.

9. Sut mae disgyrsiau ffemogenedlaethol (f*emonationalist*) yn atgyfnerthu strwythurau pŵer rhyweddol a hiliol, ac felly gwerthoedd patriarchaidd a heteronormaidd?

10. Beth yw'r berthynas rhwng cenedlaetholdeb a dad-drefedigaethu a ffurfio gwladwriaethau ôl-drefedigaethol? Trafodwch mewn perthynas ag **o leiaf un** astudiaeth achos.

11. Pa rôl mae gofod a thiriogaeth yn ei chwarae mewn rhethreg pleidiau a mudiadau asgell dde eithafol?

DIWEDD Y PAPUR